

Cymru Iachach:

ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol



Mae *Cymru Iachach* yn cynnwys camau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i ganolbwyntio gweithgarwch drwy Raglen Drawsnewid Cymru Iachach.

Wedi i'r Cabinet roi eu cefnogaeth ym mis Medi 2020 ar gyfer cyfeiriad *Cymru Iachach* yn y dyfodol, mae'r camau gweithredu wedi'u diwygio i gefnogi sefydlogi ac adfer gwasanaethau yn dilyn COVID-19 yn ogystal ag elfennau o *Cymru Iachach* a ddaeth yn flaenoriaeth o ganlyniad i'r pandemig.

Thema	Cam gweithredu
Penderfynyddion lechyd	Datgarboneiddio - Annog a chefnogi sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon er mwyn lliniaru ac addasu i effaith y newid yn yr hinsawdd yn unol â'n hymrwymiad i fod yn Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang.
Penderfynyddion lechyd	Anghydraddoldebau - Cymell arfer da i leihau anghydraddoldebau a chanlyniadau iechyd gan ganolbwyntio ar y rhai a ddaeth yn flaenoriaeth yn ystod pandemig COVID-19.
Penderfynyddion lechyd	Atal – Adeiladu ar yr ymddygiadau a chyfrifoldeb personol a ddangoswyd yn ystod pandemig COVID-19 i helpu pobl i gadw'n iach drwy ddefnyddio dull integredig o wella iechyd a lles y genedl. Gan ganolbwyntio ar adsefydlu, ailalluogi ac adfer, darparu cymorth gweithredol i gadw pobl yn iach, sicrhau'r adferiad mwyaf posibl a chynnal y gallu i fyw'n annibynnol.
Penderfynyddion lechyd	Plant a Phobl Ifanc - Sicrhau bod ein trawsnewidiad i system o ddarpariaeth iechyd a gofal di-dor yn hyrwyddo mabwysiadu ymyriadau integredig ac effeithiol i blant yn ehangach, gan arwain at fwy o ganlyniadau iechyd a llesiant cadarnhaol dros amser.

Penderfynyddion Iechyd	Iechyd Meddwl – Dylai partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda Llywodraeth Cymru i ymateb i effeithiau COVID-19 a sicrhau bod pawb yng Nghymru'n gallu cael gafael ar gymorth iechyd meddwl priodol.
Penderfynyddion Iechyd	Buddsoddi yn y sgiliau sydd eu hangen arnom yn y dyfodol yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn yr economi ehangach, i gyflymu newidiadau digidol a sicrhau'r manteision mwyaf i gymdeithas ac economi Cymru.
Ymgysylltu	Hyrwyddo dealltwriaeth o'r cynllun Cymru Iachach o fewn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a darparu enghreifftiau ymarferol i hyrwyddo trawsnewid a newidiadau trawsbynciol.
Ymgysylltu	Canolbwyntio ein hymgysylltiad â'r cyhoedd a chleifion ar wersi a ddysgwyd o bandemig COVID-19 gan gynnwys technolegau digidol a thechnolegau newydd, symud gwasanaethau i ffwrdd o ysbytai, ac atal.
Gwerthuso	Gwerthuso effaith yr Egwyddorion Cynllunio a'u mireinio os oes angen.
Gwerthuso	Parhau i adolygu Cymru Iachach er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol yn dilyn pandemig COVID-19 a chynhyrchu adroddiad tair blynedd i'r Cabinet ar y cynnydd yn erbyn y Nod Pedwarplyg.
Cyllid	Modelu a rhagweld cyllid yn y dyfodol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ar draws sectorau a haenau'r system (e.e. atal, gofal sylfaenol / eilaidd / trydyddol, gofal cymdeithasol ffurfiol ac anffurfiol, gofal cymdeithasol/gofal iechyd ac ati) ar y cyd â dulliau newydd o weithio mewn partneriaeth ac ariannu gwasanaethau o'r fath.
Cyllid	Cynnal adolygiad o fuddsoddiad cyfalaf ac ystadau, i nodi anghenion ar gyfer y dyfodol a'r ystod lawn o asedau y gellir eu defnyddio i ysgogi newid i wasanaethau.
Cymell y System	Bydd y contract gofal sylfaenol cenedlaethol yn cael ei ailffurfio i alluogi darparu gofal a chymorth lleol yn ddi-dor.
Cymell y System	Cyflwyno amryw o 'ysgogiadau ar gyfer newid', cyfuniad o gymhellion a chosbau, er mwyn ysgogi perfformiad, gwobrwyo llwyddiant a rhoi sylw i fethiant i gyflawni.
Cymell y System	Gweithredu un fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gyson â'r Nod Pedwarplyg.
Cymell y System	Dod â gweithgareddau cynllunio, cyflawni a rheoli perfformiad priodol ynghyd fel swyddogaeth Gweithrediaeth GIG Cymru, yn atebol yn uniongyrchol i Brif Weithredwr GIG Cymru.
Modelau Newydd	Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fydd prif ysgogwr newid mewn iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel ranbarthol.
Modelau Newydd	Bydd clystyrau yn parhau i ddatblygu modelau o waith partneriaeth lleol di-dor, gan weithio'n agos gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i hyrwyddo ffyrdd trawsnewidiol o weithio, fel eu bod yn cael eu mabwysiadu ar draws Cymru.

Modelau Newydd	Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a rhanddeiliaid eraill i adolygu effeithiolrwydd cydweithio'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (erbyn 2022) / Comisiynu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru i ystyried datblygu dull systemau o arolygu modelau iechyd a gofal cymdeithasol integredig lleol (erbyn 2025).
Modelau Newydd	Tynnu sylw at arferion arloesol a ffyrdd newydd o weithio a gyflawnwyd yn ystod COVID-19 a sicrhau bod manteision yn cael eu cynnal yn y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
Modelau Newydd	Gofal yn y gymuned - Datblygu llwybrau gofal system gyfan, sy'n seiliedig ar werth, ar gyfer atal, canfod, trin a rhoi gofal parhaus mor agos i'r cartref â phosibl, a sicrhau bod mesurau perthnasol yn cael eu datblygu i nodi'r canlyniadau sy'n bwysig i gleifion.
Cynllunio	Datblygu 'datganiadau ansawdd' amrywiol sy'n nodi'r canlyniadau a'r safonau yr ydym yn disgwyl eu gweld mewn gwasanaethau GIG o safon uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.
Cynllunio	Gweithredu fframwaith clinigol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau iechyd sy'n ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r ymateb i COVID-19.
Llywodraethu systemau	Parhau i adolygu byrddau, rhwydweithiau a mecanweithiau cyflawni sy'n bodoli eisoes. Cyfrannu at ddatblygu gweithgarwch trawsnewid yn y dyfodol, yn unol ag argymhellion yr adolygiad partneriaeth strategol a'r hyn a ddysgwyd o bandemig COVID-19.
Gweithlu	Darparu gweithlu cynhwysol, hyblyg, aml-broffesiynol sy'n gallu gweithio ar draws sectorau a ffiniau traddodiadol drwy sicrhau bod Strategaeth y Gweithlu yn cael ei gweithredu a'i hategu gan ddata gweithlu rhagorol a chynllunio i ddenu, recriwtio a chadw pobl dalentog i hyfforddi, gweithio a byw yng Nghymru.
Gweithlu	Gwneud GIG Cymru yn esiampl fel cyflogwr o ran sicrhau iechyd a llesiant yn y gweithle, gyda'r bwriad o rannu'r dull gweithredu hwn ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r economi ehangach.